Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021

MEHEFIN 2021

Hanes y fersiwn

Cyhoeddwyd Fersiwn 1 o Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021 ar 30 Mehefin 2021. Mae hyn yn disodli'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Covid-19) (Mehefin 2020) a bydd yn parhau mewn grym hyd nes y dyddiad a nodir neu a bennir gan Cymwysterau Cymru.

Croesewir adborth ar y ddogfen hon ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at policy@qualificationswales.org

Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021

1. Mae dull amgen eleni o ddyfarnu cymwysterau drwy Raddau a Bennir gan Ganolfannau wedi gofyn am ddull newydd o adolygu ac apelio fel bod proses deg ac ystyrlon i Ddysgwyr.

2. Mae tri cham i'r dull eleni. Cam 1 yw proses Adolygu Canolfan lle gall dysgwr ofyn am Adolygiad Canolfan o'u Gradd dros dro a Bennwyd gan y Ganolfan ar y sail bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu eu gradd. Rhaid i ddysgwyr roi rheswm pam eu bod yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu eu gradd. Gall graddau godi, gostwng neu aros yr un fath o ganlyniad. Cam 2 yw apêl gan Ganolfan ar ran Dysgwr i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r Ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod camgymeriad gweithdrefnol wedi'i wneud. Mae Cam 3 yn caniatáu i Ddysgwr, neu Ganolfan wneud cais i ni am banel Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS 2021) i adolygu a oedd CBAC wedi dilyn ein gofynion rheoliadol a'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain wrth ddelio â'r apêl. Mae'r polisi hwn yn nodi ein EPRS ar gyfer 2021, sef y trydydd cam a'r cam olaf yn y dull eleni.

3. Ni fydd EPRS 2021 yn adolygu a yw Canolfan wedi cydymffurfio â'i pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun na'r rhai a bennwyd gan CBAC er mwyn iddi ei dilyn – mae hyn yn digwydd yng Ngham 2 y broses apelio gan CBAC. Ni fydd EPRS 2021 yn adolygu cywirdeb y penderfyniad graddio ac ni fyddant yn newid unrhyw raddau.

4. Mae EPRS 2021 yn weithdrefn yr ydym yn ymgymryd â hi i adolygu a oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddiol a/neu'n cydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol gan ein Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru mewn perthynas â:

    - **rheoli apêl Cam 2 Dysgwr;**
    - **cyhoeddi canlyniadau, a**
    - **cywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â chymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru cymeradwy.**

Cwmpas

5. O ran cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch Cymeradwy a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, mae'n ofynnol bod gan CBAC broses apelio yn unol â GQAAFW5.1 ein Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru.

6. Mae EPRS 2021 yn ymwneud â dyfarnu'r cymwysterau canlynol:

    - Cymwysterau TGAU cymeradwy;
    - Cymwysterau TAG UG cymeradwy;
    - Cymwysterau TAG Safon Uwch cymeradwy;
    - Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru, a Chymwysterau TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig[1].

7. Ar gyfer cymwysterau cyffredinol eraill a gymerir yr haf hwn, dylai ymgeiswyr gyfeirio at broses EPRS Ofqual sydd i'w gweld ar eu gwefan.

8. Er mai dim ond ar gyfer y cymwysterau a restrir uchod y mae EPRS 2021 yn berthnasol, byddwn yn ymdrin â chwynion am ddyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig eraill yn unol â'n Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu.

Meini Prawf Cymhwysedd

9. Dim ond ceisiadau lle mae'r holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni y gall yr EPRS eu hystyried:
    (a) mae'r cais yn ymwneud â chymhwyster a restrir ym mharagraff 6 o'r polisi hwn;
    (b) mae'r cais yn ymwneud ag un neu ragor o'r materion a bennir ym mharagraff 10 o'r polisi hwn;
    (c) mae'r cais yn ymwneud â Dysgwr neu Ddysgwyr y cyflwynwyd Gradd a Bennwyd gan Ganolfan i CBAC ar eu cyfer;
    (d) gwnaed y cais ar ôl i gam olaf proses apelio CBAC ddod i ben;

[1] TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

(e) oni bai bod amgylchiadau eithriadol, cyflwynwyd y cais i EPRS o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan CBAC.

Caiff ceisiadau fod gan Ganolfan ar ran un neu fwy o Ddysgwyr, neu gan Ddysgwr. Bydd ceisiadau dyblyg yn cael eu gwrthod.

Rôl

10. Rôl EPRS 2021 yw ystyried ceisiadau cymwys i adolygu apeliadau a gynhelir gan CBAC a phenderfynu a yw'n fwy tebygol na pheidio bod CBAC wedi gwneud y canlynol:

    (a) dilyn ei weithdrefnau ei hun yn briodol ac yn gyson mewn perthynas â:

        (i) chyhoeddi canlyniadau;

        (ii) rheoli apêl y Dysgwr; a

        (iii) cywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â Chymhwyster Cyffredinol (GQ).

    (b) sicrhau'r deilliannau sy'n ofynnol gan Amod GQAAFW3.2(a)(i), drwy gyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu Gradd a Bennwyd gan y Ganolfan a gyflwynwyd i CBAC gan y Ganolfan mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw,

    (c) dilyn ei weithdrefnau ei hun yn briodol ac yn gyson mewn perthynas â rheoli apêl Dysgwr yn unol ag Amod GQAAFW5.1(a), yn arbennig,

        (i) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail nad oedd Canolfan wedi dilyn ei gweithdrefn yn briodol nac yn gyson mewn perthynas â chyhoeddi canlyniadau a/neu gynnal ei hadolygiad;

        (ii) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail bod camgymeriad gweinyddol a wnaed gan y Ganolfan neu CBAC wedi effeithio ar ganlyniad Dysgwr;

(iii) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail bod arfer afresymol o farn academaidd wedi effeithio ar ganlyniad Dysgwr.

(d) dilyn ei weithdrefnau ei hun yn gywir ac yn gyson ,mewn perthynas â chywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â Chymhwyster Cyffredinol (GQ).

Pwy all wneud cais am EPRS 2021?

11. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan Ddysgwr (gan gynnwys Ymgeisydd Preifat) neu gan Ganolfan ar ran Dysgwr y mae penderfyniad gwreiddiol CBAC yn effeithio'n uniongyrchol arno.

Beth yw EPRS 2021?

12. Mae EPRS 2021 yn cynnwys panel sydd â'r rôl o adolygu'r broses a gynhelir gan CBAC wrth ymdrin â'r apêl.

13. Bydd panelwyr EPRS 2021 yn pennu i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion rheoliadol ac â'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain. Felly, rhaid cwblhau apêl Cam 2 i CBAC cyn i'r cais am adolygiad EPRS gael ei gyflwyno a'i ystyried. Mae hyn er mwyn sicrhau bod CBAC wedi cael cyfle i ystyried yr apêl a chywiro unrhyw wallau yn y lle cyntaf. EPRS 2021 yw cam olaf y broses adolygu ac apelio yn haf 2021.

14. I'r ymgeisydd, mae hyn yn golygu bod proses apelio CBAC wedi'i chwblhau cyn gwneud cais i ni. EPRS 2021 yw'r hawl derfynol.

15. Yn ogystal, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ni fydd EPRS 2021 yn ystyried cais a wnaed fwy na 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan CBAC.

16. Gellir ymdrin â chwynion eraill sy'n ymwneud â gweithredoedd CBAC wrth ddyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig yn unol â'n Polisi Cwynion am Gyrff Dyfarnu.

Panel EPRS 2021

17. Caiff Panel EPRS 2021 geisio cyngor cyfreithiol, technegol neu sy'n gysylltiedig ag achosion penodol ar unrhyw adeg, a gall hefyd ddefnyddio adolygwyr annibynnol pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

18. Caiff Panel EPRS 2021 ei gynnal fel adolygiad desg o'r holl dystiolaeth, neu gallai gynnal gwrandawiad, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan gynnwys drwy gyfweliadau â phersonau perthnasol.

Cysylltu ag EPRS 2021

19. Os ydych yn dymuno i'ch apêl gael ei hadolygu gan Banel EPRS 2021, cwblhewch y templed a'i gyflwyno i:

    corporategovernance@qualificationswales.org

Y broses ar gyfer adolygu

20. Ar ôl derbyn y cais, bydd Panel EPRS 2021 yn cael ei gynnull i benderfynu a yw'r cais yn gymwys i gael ei ystyried o fewn y polisi hwn.

21. Os yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau hyn ac amlinellu ein hamserlenni i ymgymryd â phroses EPRS 2021 o fewn 10 diwrnod i dderbyn ei gais. Bydd y broses EPRS yn dechrau'n ffurfiol ar y cadarnhad hwn o gymhwysedd, hynny yw, yn dilyn y cyfnod 10 diwrnod cychwynnol.

22. Os nad yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi gwybod iddo o fewn 10 diwrnod i dderbyn ei gais gan esbonio'r rhesymau pam.

23. Ein nod yw i'r broses EPRS gymryd tua 28 diwrnod i'w chwblhau fel arfer. Os bydd amgylchiadau lle rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau EPRS, a/neu geisiadau EPRS cymhleth, gallai'r broses gymryd hyd at dri mis i'w chwblhau. Os bydd angen mwy na 28 diwrnod arnom, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn egluro'r rhesymau dros hyn.

24. Lle mae angen tystiolaeth bellach gan yr ymgeisydd a/neu CBAC, byddwn yn rhoi gwybod iddynt, gan nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ac yn nodi'r amserlen ar gyfer darparu'r dystiolaeth honno.

25. Byddwn yn penderfynu a ddylid datgelu'r dystiolaeth bellach i'r ymgeisydd neu i CBAC, fel y bo'n briodol a gallwn ganiatáu cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau yn dilyn datgeliad o'r fath.

Adroddiad

26. Bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu, yn crynhoi canfyddiadau Panel EPRS 2021. Gall hyn gynnwys argymhellion i'w gwneud i CBAC. Bydd yr adroddiad yn:

    (a) nodi unrhyw agwedd ar weithdrefnau CBAC ei hun y mae'r Panel yn credu ei fod wedi methu â'i ddilyn;
    (b) nodi'r canlyniad y mae CBAC wedi methu â'i sicrhau ac unrhyw Amod(au) y mae'r Panel yn credu nad yw CBAC wedi cydymffurfio ag ef;
    (c) esbonio'r rhesymau dros ei benderfyniad, gan gynnwys nodi'r dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni, gan esbonio unrhyw gasgliadau y mae wedi'u tynnu ac unrhyw dystiolaeth nad yw wedi teimlo y gall ddibynnu arni.

    Pe bai'r adroddiad yn nodi unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio posibl ar ran CBAC, caiff hyn ei gyfeirio at y tîm Monitro a Chydymffurfio.

27. Er bod yr adroddiad yn gorffen proses EPRS 2021, rydym yn rhagweld y bydd canfyddiadau diffyg cydymffurfio fel arfer yn cychwyn ffrwd waith newydd i ymchwilio i weld a oes angen cymryd camau rheoleiddio yn unol â'n Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.